**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Peilota) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifenydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Peilota) (Cymru) 2025.

Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
12 Mawrth 2025

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswydd statudol ar berchnogion ysgolion annibynnol yng Nghymru i rannu gwybodaeth am blant sydd ar eu cofrestr, â'r awdurdod lleol lle mae'r plentyn fel arfer yn byw. Mae'r wybodaeth yn ofynnol er mwyn galluogi'r awdurdod lleol i sicrhau ei hun nad yw'r plentyn yn blentyn sy'n colli addysg ac nad oes angen iddo gynnal ymholiadau mewn perthynas â'r plentyn hwnnw.

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud at ddibenion peilota yn unig ac maent yn peidio â chael effaith chwe wythnos ar ôl iddynt ddod i rym.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bydd Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Peilota) (Cymru) 2025 ("y rheoliadau gwybodaeth") yn dod i rym ar 8 Ebrill 2025. Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn negyddol ac yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion ysgolion annibynnol yng Nghymru ddarparu gwybodaeth am blant sydd ar eu cofrestr, i'r awdurdod lleol cartref perthnasol. Bydd y rheoliadau gwybodaeth yn galluogi awdurdodau lleol i sicrhau eu hunain nad yw'r plant hyn yn colli addysg a'u bod yn cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â'r plant hyn.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith chwe wythnos o'r dyddiad y deuant i rym, a byddant yn gymwys i'r saith awdurdod lleol sy'n cymryd rhan yn y 'cynllun peilot cronfa ddata plant sy'n colli addysg'. Caiff yr awdurdodau lleol a fydd yn cymryd rhan yn y cynllun peilot eu henwi yn y Rheoliadau.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud ochr yn ochr â Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Peilota) (Cymru) 2025 ("y rheoliadau cronfa ddata").

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan bwerau presennol adran 537A o Ddeddf Addysg 1996.

Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol yn Neddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672 ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae adran 71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth sy'n ffafriol i unrhyw un o'u swyddogaethau eraill, neu sy'n gysylltiedig â nhw.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben y rheoliadau gwybodaeth yw cynorthwyo awdurdodau lleol i ymgymryd â'u dyletswydd o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, sef gwneud trefniadau i ymgymryd â'u swyddogaethau addysg gyda'r nod o ddiogelu a hybu lles plant[1]. Bydd y rheoliadau yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau presennol fel yr amlinellir yng nghanllawiau statudol Llywodraeth Cymru "'Helpu i Atal Plant a Phobl Ifanc rhag Colli Addysg"[2] ("y canllawiau plant sy'n colli addysg").

"Plant sy'n colli addysg" yw plant nad ydynt ar gofrestr ysgol, plant mewn addysg heblaw yn yr ysgol, a phlant yr adroddir eu bod yn cael addysg ddewisol yn y cartref ond lle nad yw'r awdurdod lleol o'r farn eu bod yn cael addysg addas. Nid yw plant sy'n colli addysg yn cynnwys plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref pan fo'r awdurdod lleol o'r farn bod yr addysg gartref yn addas, ac nid yw'n cynnwys plant sydd ar gofrestr ysgol ond nad ydynt yn mynychu'n rheolaidd.

Fel rheol, nid yw awdurdodau lleol yn cadw gwybodaeth am blant sy'n byw yn eu hardaloedd sydd ar gofrestr ysgolion annibynnol yng Nghymru gan olygu na ellir gwahanu nifer y plant sy'n mynychu ysgolion annibynnol oddi wrth y niferoedd amcangyfrifedig o blant a allai fod yn blant sy'n colli addysg. Mae'r rheoliadau gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion ysgolion annibynnol yng Nghymru ddarparu'r wybodaeth hon i'r awdurdod lleol perthnasol, fel y gallant sicrhau eu hunain eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â'r plant hynny.

Bydd y rheoliadau gwybodaeth yn rhoi gwybodaeth sylfaenol i awdurdodau lleol am blant sy'n byw yn eu hardaloedd sydd ar gofrestr ysgolion annibynnol. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i gofnodi'r garfan hon o blant, gan felly leihau nifer y plant nad oes cyfrif amdanynt yng nghofnodion addysg yr awdurdod lleol, yn ogystal â rhoi darlun mwy cywir ynghylch nifer y plant sy'n colli addysg.

Mae'r berthynas rhwng colli addysg a diogelu a lles wedi'i hen sefydlu. Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, 'Helpu i Atal Plant a Phobl Ifanc rhag Colli Addysg' yn nodi, pan fo plentyn neu berson ifanc yn cael addysg, nid yn unig y mae'n cael y cyfle i gyrraedd ei botensial, ond mae hefyd mewn amgylchedd sy'n galluogi asiantaethau lleol i ddiogelu a hybu ei lesiant. Os bydd plentyn neu berson ifanc yn mynd ar goll o addysg, gallai wynebu risg o niwed arwyddocaol. Mae ymchwil wedi dangos bod y plant a'r bobl ifanc hynny nad ydynt yn cael addysg yn fwy tebygol o ymddwyn yn droseddol ac yn wrthgymdeithasol, yn fwy tebygol o wynebu risg o niwed yn sgil camfanteisio

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2002/32/section/175
[2] https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-i-helpu-i-atal-plant-phobl-ifanc-rhag-colli-addysg

rhywiol ac erledigaeth ac yn fwy tebygol o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol a chael eu cyflogi'n anghyfreithlon.

Bydd y rheoliadau gwybodaeth yn cael eu gwneud ochr yn ochr â'r rheoliadau cronfa ddata i hwyluso'r cynllun peilot cronfa ddata plant sy'n colli addysg. Mae'r rheoliadau cronfa ddata yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot sefydlu cronfa ddata 'plant sy'n colli addysg'. Mae dyletswydd ar wahân ar fyrddau iechyd lleol i rannu â'r awdurdod lleol perthnasol, wybodaeth sylfaenol, anghlinigol am blant sydd wedi'u cofrestru â chontractwyr gwasanaethau meddygol cyffredinol (ymarferwyr cyffredinol). Bydd yr wybodaeth gan fyrddau iechyd lleol yn cael ei chroesgyfeirio â data addysg yr awdurdod lleol a'r wybodaeth gan ysgolion annibynnol, er mwyn sefydlu pa blant sy'n blant nad oes cyfrif amdanynt.

## 5. Ymgynghori

Yn 2020, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 12 wythnos o hyd[3] ar Reoliadau Cronfa Ddata Addysg Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020 ("rheoliadau cronfa ddata 2020") ac ar Reoliadau drafft Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 ("rheoliadau gwybodaeth 2020"). Roedd y ddwy set o Reoliadau drafft yn cefnogi'r un cynnig a byddent yn caniatáu i awdurdodau lleol groesgyfeirio gwybodaeth gan fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol i nodi'n gywir y plant a allai fod yn blant sy'n colli addysg. Roedd rheoliadau cronfa ddata 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gofnodi gwybodaeth am *bob* plentyn yng Nghymru, yn hytrach na dim ond y rhai a allai fod yn colli addysg.

Mae crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad 2020 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru - Cronfeydd data addysg awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU

Yn 2024, cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar gynigion cronfa ddata wedi'u diwygio a hynny yn sgil newidiadau i'r nod polisi cyffredinol a lleihau cwmpas y rheoliadau cronfa ddata.

Mae crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad 2024 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru - Cronfa ddata plant sy'n colli addysg | LLYW.CYMRU.

Gan na chodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â rheoliadau gwybodaeth 2020, ni wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar y Rheoliadau hyn am yr eildro.

[3] https://www.llyw.cymru/cronfeydd-data-addysg-awdurdodau-lleol

**RHAN 2**

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Peilota) (Cymru) 2025

### Cyflwyniad

1. Lluniwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn er mwyn ystyried goblygiadau cynigion i'w gwneud yn ofynnol i berchnogion ysgolion annibynnol yng Nghymru ddarparu gwybodaeth am blant sydd ar eu cofrestr, i'r awdurdod lleol lle mae'r plentyn fel arfer yn byw.

### Y cyd-destun polisi

2. Mae gan Lywodraeth Cymru ganllawiau statudol[4] ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i sefydlu hunaniaeth y plant sy'n byw yn eu hardaloedd nad ydynt yn cael addysg addas. Mae'r canllawiau yn amlinellu'r camau y dylai'r awdurdod lleol eu dilyn unwaith y bydd plentyn sy'n colli addysg (neu sy'n wynebu risg o fod yn blentyn sy'n colli addysg) yn cael ei nodi, ac yn cynghori ar gamau i'w cymryd i nodi plant anhysbys. Wrth ddatblygu'r canllawiau, nododd awdurdodau lleol bum maes allweddol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn effeithiol. Maent fel a ganlyn:

    - rheolaeth ac arweinyddiaeth strategol;
    - systemau gwybodaeth;
    - rhwydweithiau a phwyntiau cyswllt;
    - sicrhau darpariaeth addysg;
    - systemau effeithiol ar gyfer monitro.

*Ysgolion annibynnol*

3. Mae awdurdodau lleol yn cadw gwybodaeth am blant sy'n mynychu ysgolion a gynhelir a'r rhai sy'n mynychu darpariaeth awdurdod lleol amgen drwy addysg heblaw yn yr ysgol. Maent hefyd yn cadw rhestr o blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, yn amodol bod y plant hynny ar gofrestr ysgol cyn newid i gael addysg ddewisol yn y cartref. Nid yw awdurdodau lleol yn cadw gwybodaeth am blant sy'n mynychu ysgolion annibynnol fel mater o drefn.

4. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod nifer y plant sy'n mynychu ysgolion annibynnol yng Nghymru oddeutu 8,000[5]. Mae'n bosibl bod gan

---

[4] Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg.pdf
[5] Plant sy'n colli addysg y wladwriaeth: amcangyfrif niferoedd gan ddefnyddio data gweinyddol cysylltiedig | LLYW.CYMRU

awdurdodau lleol wybodaeth am rai plant sy'n mynychu ysgolion annibynnol ond nid pob un. Fel arfer, byddai gwybodaeth sydd ganddynt yn cael ei darparu drwy drefniant rhannu data y cytunwyd arno rhwng awdurdod lleol ac ysgol annibynnol unigol, neu drwy wybodaeth a ddarperir gan riant neu ofalwr.

5. Byddai gosod gofyniad ar ysgolion annibynnol (drwy Reoliadau) i ddarparu gwybodaeth am ddisgyblion ar eu cofrestr yn galluogi'r awdurdod lleol i gofnodi'r wybodaeth ar ei systemau addysg presennol ei hun. Byddai hyn yn arwain at ddarlun mwy cyflawn o'r ddarpariaeth addysg a ddarperir i blant sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol, ac yn sicrhau'r awdurdod lleol y gellir dileu'r garfan hon o blant o amcangyfrifon yr awdurdod lleol ynghylch plant sy'n colli addysg. Byddai hefyd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i reoli a chynnal systemau gwybodaeth a monitro effeithiol ar gyfer eu data addysg, gan eu helpu i ymgymryd â'u dyletswyddau statudol.

*Plant sy'n colli addysg*

6. Caiff hawliau pob plentyn i gael addysg eu cymhwyso'n gyfartal. Mae'r cynigion hyn yn cefnogi'r nod o greu Cymru fwy cyfartal a chymdeithas sy'n galluogi pobl i gyrraedd eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

7. Mae adran 175(1) o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i sicrhau y caiff eu swyddogaethau addysg eu harfer gyda'r nod o ddiogelu a hybu lles plant. Yn ogystal ag unrhyw niwed corfforol, mae hybu lles plant yn cynnwys atal niwed i ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol plentyn. Nid yw plant nad ydynt yn cael arfer eu hawl i addysg yn gallu cyrraedd eu potensial, mae ganddynt lai o ragolygon pan fyddant yn oedolion yn ogystal â llai o gyfleoedd i lwyddo yn ddiweddarach mewn bywyd.

8. Ar hyn o bryd, nid yw awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu dyletswydd adran 175 yn llawn oherwydd nad ydynt yn gwybod am yr holl blant sy'n byw yn eu hardaloedd. Gall hyn fod oherwydd bod rhiant wedi symud i'r ardal ac nad yw wedi rhoi gwybod i'r awdurdod lleol nac wedi cofrestru'r plentyn mewn ysgol, neu oherwydd nad yw plentyn erioed wedi mynychu ysgol ac nad yw'r rhiant wedi rhoi gwybod i'r awdurdod lleol eu bod yn deulu sy'n addysgu yn y cartref. Ni waeth beth fo'r amgylchiadau, ni all awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau statudol os nad ydynt yn gwybod am blentyn neu os nad oes ganddynt wybodaeth sy'n cadarnhau

sut y caiff plentyn ei addysgu. Mae'r plant hyn o bosibl yn blant a allai fod yn colli addysg neu yn blant sy'n colli addysg ac mae'r awdurdod lleol o dan ddyletswydd i wneud trefniadau i'w nodi.

9. Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i rieni a gofalwyr roi gwybod i'r awdurdod lleol eu bod yn addysgu eu plentyn neu eu plant gartref. Os nad yw plentyn erioed wedi mynychu ysgol, ni fydd yr awdurdod lleol yn ymwybodol ohono oni bai bod y rhiant yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol eu bod yn byw yn yr ardal a'i fod yn addysgu ei blentyn gartref. Nid yw'r awdurdod lleol felly yn gallu ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r plant hyn, gan gynnwys cynnal asesiad o'r ddarpariaeth addysg i benderfynu a yw'n addas ac yn effeithlon. Er ei bod yn debygol bod y mwyafrif o blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn cael addysg addas, mae'n bosibl hefyd fod plant nad ydynt yn cael addysg o gwbl. Hyd nes y bydd yr awdurdod lleol wedi'i sicrhau bod plentyn sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn cael addysg addas, bydd y plentyn yn cael ei ystyried yn blentyn a allai fod yn colli addysg a bydd canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar blant sy'n colli addysg[6] yn gymwys. Mae'r categori plant sy'n colli addysg felly yn cynnwys is-set o blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

*Addysg Ddewisol yn y Cartref*

10. Yn unol ag adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, ceir dyletswydd ar wahân ar awdurdodau lleol i ymgymryd â'u swyddogaethau addysg gyda'r nod o ddiogelu a hybu lles plant. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i bob plentyn, ni waeth ble neu sut y caiff ei addysgu. Nod y rheoliadau yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwybod pa blant a allai fod yn colli addysg a'u bod yn bodloni eu dyletswydd adran 175. Unwaith y bydd enwau'r plant hyn yn hysbys, gall yr awdurdod lleol, yn unol â'u dyletswyddau ehangach o dan adran 436A, benderfynu a yw'r plant hyn yn cael addysg addas. Ar hyn o bryd, nid yw awdurdodau lleol yn gallu cyflawni'r dyletswyddau hyn gan nad ydynt yn gallu nodi'r holl blant y mae ganddynt gyfrifoldeb amdanynt. Mae hyn yn gymwys i blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, yn ogystal â phlant sy'n mynychu ysgolion annibynnol.

11. Er nad oes tystiolaeth bod cael eich addysgu yn y cartref yn risg diogelu ynddi'i hun, mae plant nad ydynt yn cael eu gweld yn rheolaidd gan weithwyr proffesiynol sydd â dyletswyddau diogelu yn fwy tebygol o wynebu risg. Hyd yn oed os *nad* yw plentyn yn wynebu risg o niwed corfforol, mae colli addysg ynddo'i hun yn fater diogelu a lles gan nad yw'r

[6] Canllawiau-statudol-helpu-atal-plant-phobl-ifanc-rhag-colli-addysg.pdf

plentyn hwnnw'n gallu arfer ei hawl i addysg. Mae plant a phobl ifanc nad ydynt yn cael addysg addas hefyd yn wynebu risg uwch o amrywiaeth o ganlyniadau negyddol a allai niweidio eu cyfleoedd mewn bywyd yn y tymor hir. Pan fo plentyn neu berson ifanc yn cael addysg addas ac effeithlon, nid yn unig y mae'n cael y cyfle i gyrraedd ei botensial, ond mae hefyd mewn amgylchedd sy'n galluogi asiantaethau lleol i ddiogelu a hybu ei lesiant. Ystyrir bod plentyn nad yw'n cael addysg addas ac effeithlon yn blentyn sy'n colli addysg ac mae'n dod o dan gwmpas canllawiau statudol Llywodraeth Cymru[7].

**Yr opsiynau**

12. Caiff dau opsiwn eu hystyried at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. **Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir**.

    - Opsiwn 1 - Parhau â'r status quo – hy "gwneud dim" / "gwneud yr isafswm"

    - Opsiwn 2 - Gwneud rheoliadau i (a) ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol unigol sefydlu cronfa ddata o blant o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal a allai fod yn colli addysg, a (b) ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol rannu data penodol ag awdurdodau lleol. Bydd hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol nodi plant sy'n hysbys i wasanaethau iechyd ac ysgolion annibynnol ond nad ydynt ar hyn o bryd yn hysbys i'r awdurdod lleol. **Dyma'r opsiwn a ffefrir.**

## Opsiwn 1: Parhau â'r status quo ("gwneud dim" / "gwneud yr isafswm")

13. Byddai'r opsiwn hwn yn dibynnu ar y canllawiau statudol cyfredol ynghylch plant sy'n colli addysg heb newidiadau pellach i bolisi i helpu awdurdodau lleol i nodi plant nad ydynt yn hysbys iddynt, gan gynnwys y rhai sydd ar gofrestr ysgolion annibynnol. Byddai'r canllawiau statudol presennol ynghylch addysg ddewisol yn y cartref hefyd yn parhau. Byddai disgwyl i awdurdodau lleol ddibynnu ar brosesau fel yr amlinellir yn y canllawiau statudol presennol, gan gynnwys sefydlu neu fanteisio ar drefniadau gwirfoddol ar gyfer rhannu data a rhannu arferion da ag asiantaethau eraill.

**Y cyd-destun**

[7] Canllawiau-statudol-helpu-atal-plant-phobl-ifanc-rhag-colli-addysg.pdf

14. Un o sbardunau allweddol ar gyfer y cynigion yw ymrwymiad hirsefydledig Llywodraeth Cymru i hawliau plant yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[8]. Ers deddfu Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[9], mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i'r Confensiwn wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc yng Nghymru drwy greu diwylliant sy'n parchu, yn hyrwyddo ac yn cynnal hawliau plant. Yn unol â'r Confensiwn, mae gan bob plentyn hawl i addysg. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai taith addysgol plentyn fod yn un o gyfnodau mwyaf cyfoethog a gwerthfawr ei fywyd.

15. Cyhoeddwyd canllawiau anstatudol ynghylch addysg ddewisol yn y cartref yn 2017. Bwriad y canllawiau oedd gosod cyd-destun newydd ar gyfer meithrin cysylltiadau cadarnhaol a pharch ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a chymunedau addysgu yn y cartref. Fodd bynnag, dadleuodd awdurdodau lleol nad oedd y canllawiau yn effeithiol o ran eu cynorthwyo i ymgymryd â'u dyletswyddau statudol a gofynnwyd am ganllawiau mwy cadarn, ar sail statudol. Cyhoeddwyd canllawiau statudol felly yn 2023[10] a'u nod oedd egluro'r cydbwysedd rhwng hawliau'r rhieni i addysgu yn y cartref, hawliau'r plentyn i gael addysg addas, a chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol. Er nad yw'r canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n addysgu yn y cartref roi gwybod i'r awdurdod lleol eu bod yn gwneud hynny, mae'n nodi, os nad yw awdurdod lleol yn gallu barnu a yw plentyn sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn cael addysg addas, bod y plentyn felly yn dod o dan gwmpas y canllawiau plant sy'n colli addysg.

16. O dan Opsiwn 1, byddai'r canllawiau statudol cyfredol yn parhau i fod ar waith yn nhymor y Senedd hon ond ni fyddai rhagor o ganllawiau. Yn unol â'r canllawiau, byddai disgwyl i awdurdodau lleol barhau â'r trefniadau anffurfiol presennol ar gyfer rhannu data, neu sefydlu trefniadau gwirfoddol newydd gydag asiantaethau eraill. Byddai gweithgarwch ymgysylltu allweddol ynghylch addysg ddewisol yn y cartref a phlant sy'n colli addysg yn parhau gydag awdurdodau lleol ond byddent yn parhau i geisio cymorth pellach drwy ddeddfwriaeth neu ganllawiau mwy cadarn, er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'u dyletswyddau statudol presennol – neu gyflwyno rhai ychwanegol.

17. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi tynnu sylw at ddiffyg gweithredu Llywodraeth Cymru yn y maes hwn ac mae wedi galw am ddeddfwriaeth

[8] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/poster-crynodeb-uncrc.pdf
[9] https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents/welsh
[10] Canllawiau addysg ddewisol yn y cartref | LLYW.CYMRU

sylfaenol[11]. Er gwaethaf symud yn 2023 o ganllawiau anstatudol i ganllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref, nid ydynt o hyd yn mynd i'r afael â'r prif bryder nad yw awdurdodau lleol yn gallu nodi pob plentyn o fewn eu ffiniau. Nid ydynt felly yn gallu cyflawni eu dyletswyddau diogelu a lles mewn perthynas â'r plant hyn.

18. Er nad oes pryderon am blant sydd ar gofrestr ysgolion annibynnol, mae anallu awdurdodau lleol i nodi'r plant hynny yn golygu bod y garfan hon wedi'i chynnwys ar hyn o bryd yn nifer y plant a allai fod yn colli addysg, gan arwain at amcangyfrifon anghywir ac anallu awdurdodau lleol i ymgymryd â'u dyletswyddau statudol. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, byddai angen gweithdrefn i ategu'r canllawiau statudol o ran addysg ddewisol yn y cartref a phlant sy'n colli addysg.

**Costau**

19. Nid oes costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol nac ysgolion annibynnol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Manteision**

20. Mantais bosibl a allai ddeillio o'r opsiwn "gwneud dim" / "gwneud yr isafswm" yw na fyddai costau uniongyrchol ychwanegol. Byddai Opsiwn 2 yn arwain at gostau ar wasanaethau cyhoeddus ac o bosibl ar y system gyfiawnder.

**Anfanteision**

24. Mae sawl anfantais yn gysylltiedig ag Opsiwn 1. Yn bennaf, nid yw'n ceisio mynd i'r afael ag unrhyw un o bryderon awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill sydd â dyletswyddau diogelu. Mae awdurdodau lleol a sefydliadau sydd â chyfrifoldeb am blant a phobl ifanc, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, wedi dadlau'n gyson nad yw'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn ddigon cadarn i alluogi awdurdodau lleol i nodi plant sy'n byw yn eu hardaloedd, na'u galluogi i ymgymryd â'u dyletswyddau statudol yn effeithiol.

25. Er nad yw plant sy'n mynychu ysgolion annibynnol yn colli addysg, byddai hysbysiad o'u cofrestriad mewn ysgolion annibynnol yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau addysg a gwneud prosesau sy'n bodoli eisoes ynghylch plant sy'n colli addysg yn fwy cadarn.

---

[11] Adolygiad o sut mae Llywodraeth Cymru wedi ymarfer ei swyddogaethau: Addysgu gartref ac Ysgolion Annibynnol - Comisiynydd Plant Cymru

26. Mae canllawiau statudol plant sy'n colli addysg yn amlinellu sut y dylai awdurdodau lleol ymgymryd â'u dyletswyddau, a'r gweithdrefnau neu'r rhwydweithiau y gellir eu defnyddio. Fodd bynnag, nid oes gweithdrefnau ffurfiol na chyson ar waith i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r canllawiau, sicrhau cysondeb o ran gweithredu a galluogi'r gwaith o nodi pob plentyn.

27. Mae awdurdodau lleol o dan bwysau cynyddol i reoli'r cynnydd yn nifer y disgyblion a dynnir oddi ar gofrestr ysgol, nodi pob plentyn, a barnu ar addasrwydd addysg yr holl blant sy'n byw yn eu hardaloedd nad ydynt yn yr ysgol. Mae nifer y plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref wedi cynyddu'n sylweddol ers datblygu'r cynigion hyn, ac yn arbennig ers pandemig Covid-19. Er bod gan awdurdodau lleol wybodaeth yn ymwneud â phlant sydd wedi eu tynnu oddi ar gofrestr ysgol, bydd y garfan uwch o blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn cynnwys plant nad ydynt erioed wedi bod i'r ysgol, a phlant sydd wedi symud o ardal neu wlad arall. Oni bai bod y rhiant yn cysylltu â'r awdurdod lleol yn wirfoddol, bydd y plant hyn yn parhau i fod yn anhysbys ac yn blant a allai fod yn colli addysg.

28. Os byddwn yn cynnal y status quo, ni fyddwn yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

## Opsiwn 2: Cyflwyno rheoliadau i hwyluso cynllun peilot cronfa ddata plant sy'n colli addysg, gan gynnwys rheoliadau ar wahân a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol rannu gwybodaeth er mwyn hwyluso trefniadau'r gronfa ddata.

29. Mae'r opsiwn hwn yn darparu ar gyfer dwy set o reoliadau sy'n ceisio darparu i awdurdodau lleol set ddata addysg fwy cyflawn a gweithdrefnau rhannu data cyson. Byddai rheoliadau yn cael eu cyflwyno a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu rhestr neu gronfa ddata plant sy'n colli addysg, a'i gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ddarparu gwybodaeth i nodi plant anhysbys. Byddai rheoliadau ar wahân hefyd yn cael eu rhoi ar waith a fyddai'n gosod dyletswydd ar berchnogion ysgolion annibynnol i roi gwybod i awdurdodau lleol am blant sydd ar gofrestr yr ysgol. Byddai trefniadau yn cael eu peilota gyda rhai awdurdodau lleol yn y lle cyntaf.

### Y cyd-destun

30. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i nodi plant nad ydynt yn cael addysg addas naill ai mewn ysgol neu fel arall. Gall hyn

gynnwys y plant hynny sy'n hysbys i'r awdurdod lleol yn ogystal â'r plant hynny nad ydynt yn hysbys. Mae awdurdodau lleol wedi dadlau'n gyson ei bod yn anodd iddynt gyflawni'r gofyniad hwn gan nad oes dyletswydd ar rieni i 'gofrestru' eu plant â'r awdurdod lleol os caiff y plant eu haddysgu yn y cartref.  Ni chaiff gwybodaeth am blant sydd ar gofrestr ysgolion annibynnol ei darparu i awdurdodau lleol ar hyn o bryd ychwaith, gan arwain at fylchau mwy mewn data ac anhawster wrth nodi sut y mae plant nad ydynt mewn ysgolion a gynhelir neu sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, yn cael eu haddysg.

21. Er mwyn ategu'r cynnig o dan yr opsiwn hwn, byddai angen dwy set o reoliadau ar wahân. Mae'r rheoliadau gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth am ddisgyblion mewn ysgolion annibynnol yn cael ei rhannu ag awdurdodau lleol. Mae angen yr wybodaeth hon i sicrhau bod y trefniadau plant sy'n colli addysg yn gadarn, a bod plant sy'n mynychu ysgolion annibynnol yn cael eu dileu o ymholiadau ynghylch plant a allai fod yn colli addysg.

31. Er na ellir defnyddio'r rheoliadau cronfa ddata i orfodi rhiant i gofrestru'i blentyn yn blentyn sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, y farn yw y byddai'r ddwy set o reoliadau gyda'i gilydd yn rhoi i'r awdurdod lleol restr weddol gyflawn o blant nad oeddent yn hysbys iddynt yn flaenorol (ac felly plant a allai fod yn colli addysg). Byddai hyn yn cynnwys plant y dywedir eu bod yn blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, ond lle nad yw'r rhiant wedi rhoi gwybod i'r awdurdod lleol ei fod yn addysgu yn y cartref, a heb ddarparu gwybodaeth i ddangos bod y plentyn yn cael addysg addas.

32. Nid yw'r opsiwn hwn yn cael gwared â dewis rhiant i addysgu yn y cartref, ond mae'n ceisio darparu gweithdrefn i alluogi awdurdodau lleol i fod yn ymwybodol o blant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd, a sicrhau eu hunain nad ydynt yn blant sy'n colli addysg.

## Costau

### *Llywodraeth Cymru*

33. Nid oes costau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn ac eithrio costau cyfle sy'n ymwneud ag amser staff, hy amser yr arweinydd polisi a fyddai'n cael ei dreulio ar feysydd eraill o ran datblygu gwaith/polisi.

### *Awdurdodau lleol*

34. Mae gan awdurdodau lleol eisoes gronfeydd data o blant y maent yn gwybod eu bod yn blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, plant sy'n cael darpariaeth amgen gan yr awdurdod lleol yn ogystal â gwybodaeth am ddisgyblion ar gofrestr ysgolion a gynhelir. Er y dylai'r costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn fod yn fach iawn, nid yw'r rhain wedi'u diffinio. Fodd bynnag, byddai unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o amser a dreulir gan staff i gofnodi'r wybodaeth a geir gan ysgolion annibynnol ar gronfa ddata addysg yr awdurdod lleol, cyn croesgyfeirio'r data addysg â gwybodaeth gan fyrddau iechyd lleol.

35. Ni fydd y gweithdrefnau ar gyfer dyroddi Gorchmynion Mynychu'r Ysgol neu Orchmynion Goruchwylio Addysg yn newid[12]. Fodd bynnag, gall cyflwyno cronfa ddata plant sy'n colli addysg arwain at nodi fwy o blant nad ydynt yn cael addysg. Yn sgil hyn, efallai y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried dyroddi rhagor o Orchmynion Mynychu'r Ysgol.

36. Gan y byddai'r rheoliadau yn cael eu gwneud i gynnal cynllun peilot o'r trefniadau, bydd y goblygiadau o ran costau yn rhan o'r broses werthuso. Byddai'r cynllun peilot yn ffordd o gasglu data ar yr effaith ar awdurdodau lleol, gan gynnwys goblygiadau o ran capasiti a chostau. Os caiff y trefniadau eu rhoi ar waith ledled Cymru (drwy reoliadau newydd) wedi'r cynllun peilot, bydd asesiad llawn o'r costau yn cael ei gynnal. Bydd yr asesiad effaith yn cael ei lywio gan yr adroddiad gwerthuso.

***Byrddau Iechyd Lleol / Ysgolion Annibynnol***

37. Mae gan rai byrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol drefniadau eisoes ar waith gydag awdurdodau lleol ac maent yn darparu gwybodaeth sydd ganddynt am blant o oedran ysgol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ledled Cymru. Byddai cost weinyddol ychwanegol fach ar gyfer partneriaid byrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol os nad oes ganddynt unrhyw weithdrefn rhannu data ar hyn o bryd. Gan ystyried mai dim ond yn flynyddol y bydd angen darparu'r wybodaeth ac yn dilyn ymgynghori, credir y byddai unrhyw gynnydd mewn costau yn fach. Yn yr un modd â chostau posibl i awdurdodau lleol, bydd yr effaith ar fyrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol yn cael ei hystyried yn llawn yn rhan o'r cynllun peilot.

38. Mewn perthynas â'r baich ar ysgolion annibynnol, bydd swm yr wybodaeth a rennir yn fach iawn (enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r plentyn) ac mae perchnogion wedi nodi'n flaenorol nad oes unrhyw gostau cysylltiedig. Cynigir y caiff yr agwedd hon ei gwerthuso yn rhan o gynllun peilot

[12] Adran 437 o Ddeddf Addysg 1996 – Gorchmynion Mynychu'r Ysgol

ynghylch y trefniadau gyda'r bwriad o ddarparu proses safonedig i alluogi ysgolion annibynnol i gyflwyno'r wybodaeth.

**Manteision**

39. Mae manteision addysg i blant a'r gymdeithas ehangach yn amlwg. Gall addysg dorri cylchoedd tlodi cenedlaethau drwy alluogi plant i feithrin sgiliau bywyd a chael yr wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ymdopi â heriau cymdeithasol. Mae cysylltiad cryf rhwng addysg a gwelliannau gwirioneddol mewn iechyd a maeth, gan wella cyfleoedd plant i oroesi. Mae addysg yn grymuso plant i fod yn weithgar a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas, yn eu grymuso i allu arfer eu hawliau a'u grymuso i ymwneud â bywyd sifil a gwleidyddol. Mae addysg hefyd yn ffactor diogelu pwerus, hynny yw, mae plant sy'n mynychu'r ysgol yn llai tebygol o ddod i wrthdaro â'r gyfraith ac yn llawer llai agored i effeithiau niweidiol camfanteisio ar blant[13].

40. Mae plant nad ydynt yn cael addysg addas yn wynebu risg sylweddol o dangyflawni, o fod yn ddioddefwyr niwed, camfanteisio neu radicaleiddio, a bod yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) yn ddiweddarach mewn bywyd. Bydd Opsiwn 2 yn helpu awdurdodau lleol i nodi plant a allai fod yn blant sy'n colli addysg. Mae'n rhoi gweithdrefn i awdurdodau lleol nodi plant nad ydynt wedi'u cynnwys ar unrhyw set ddata addysg ac felly yn anhysbys iddynt. Bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio'r wybodaeth i gynnal ymholiadau, sicrhau bod y plant hyn yn cael addysg addas, a lleihau'r risg hon.

41. Mae colli addysg yn fater lles. Mae Opsiwn 2 yn ategu nod polisi Llywodraeth Cymru i ddiogelu hawliau plant a hybu lles a llesiant plant. Byddai'r rheoliadau yn helpu awdurdodau lleol i nodi plant nad ydynt yn hysbys iddynt gan ganiatáu iddynt gymryd camau i sicrhau bod y plant hynny'n cael addysg addas. Mae hyn yn cyd-fynd â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol Erthyglau 28 a 29 sef yr hawl i addysg. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd diogelu ychwanegol mewn perthynas â'r holl blant sy'n byw yn eu hardaloedd. Mae diffyg gallu presennol awdurdodau lleol i nodi pob plentyn yn mynd yn groes i'r ddyletswydd hon.

42. Mae cyflwyno gofyniad ar ysgolion annibynnol i rannu data yn sicrhau mantais ychwanegol gan ei bod yn darparu ffordd o gyfathrebu rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion annibynnol yn eu hardaloedd. Mae hyn yn lleihau'r risg y bydd plant yn diflannu o olwg gwasanaethau os ydynt wedi

---

13 https://www.hrw.org/report/2016/06/09/education-deficit/failures-protect-and-fulfill-right-education-through-global

symud rhwng sector y wladwriaeth a'r sector annibynnol, neu rhwng addysg ddewisol yn y cartref a'r sector ysgolion annibynnol.

43. Bydd profi'r trefniadau drwy gynllun peilot yn y lle cyntaf yn rhoi cyfle i fesur y canlyniadau a diwygio'r rheoliadau, pe bai angen, cyn eu rhoi ar waith ym mhob awdurdod lleol. Os caiff trefniadau eu rhoi ar waith ledled Cymru wedi'r cynllun peilot, byddai'r rheoliadau yn helpu i gryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol o dan Ddeddf Addysg 2004 a Deddf Plant 2004 gan sicrhau dull gweithredu cyson gan awdurdodau lleol ledled Cymru.

**Anfanteision**

44. Nid yw Opsiwn 2 yn bodloni cais llawn rhanddeiliaid gan olygu y gallai fod angen mesurau deddfwriaethol pellach yn ddiweddarach. Ni fyddai'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i rieni neu ofalwyr gofrestru â'u hawdurdod lleol os nad yw eu plentyn ar gofrestr ysgol. Yn hytrach, maent yn cyflwyno trefniant ffurfiol ar gyfer rhannu data rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol er mwyn ceisio nodi plant nad ydynt wedi'u cynnwys ar set ddata addysg yr awdurdod lleol ar hyn o bryd. Gan na fyddai gofyniad ar rieni i roi gwybod i'r awdurdod lleol pe baent yn addysgu yn y cartref, ni fyddai'r opsiwn hwn yn helpu i wahaniaethu rhwng plant sy'n colli addysg a phlant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref ac sy'n anhysbys i'r awdurdod lleol.

45. Mae'n bosibl na fydd yr opsiwn hwn yn casglu data ar bob plentyn nad yw'n mynychu ysgol gan y gallai fod plant nad ydynt wedi'u cofrestru ag ymarferydd cyffredinol ac felly heb eu cynnwys yn y data iechyd.

46. Ar hyn o bryd, mae'r sector ysgolion annibynnol yn ymateb i newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag eithriadau TAW. Efallai y bydd gosod dyletswydd newydd arnynt yn awr yn cael ei ystyried yn faich diangen. Bydd hyn yn cael ei liniaru drwy ymwneud â Chyngor Ysgolion Annibynnol Cymru a chyfarfod â chynrychiolwyr o ysgolion cyn y cynllun peilot.

47. I'r mwyafrif o blant, ni fyddai'r mesurau yn arwain at ganlyniadau addysgol gwell gan nad oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ffordd y caiff addysg ddewisol yn y cartref ei darparu neu gyfyngiadau ar bwy all gael ei addysgu gartref. Efallai y bydd angen mesurau pellach i gryfhau'r polisi wedi'r cynllun peilot.

48. Mae grwpiau addysgu yn y cartref yn parhau i wrthwynebu unrhyw fath o broses gofrestru neu system nodi. Er bod yr opsiwn hwn yn cydbwyso'r gofynion polisi â barn grwpiau addysg ddewisol yn y cartref, gallai'r opsiwn barhau i greu anghytgord rhwng teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ac

awdurdodau lleol ac effeithio ar eu gallu i ymgymryd â'u dyletswyddau. Mae'r anfantais hon wedi'i lliniaru cyn belled ag y bo modd gan fod y cynigion yn anelu at nodi plant sy'n colli addysg.

49. Gan nad oes gofyniad ar hyn o bryd i rieni roi gwybod i'w hawdurdod lleol os ydynt yn addysgu yn y cartref, mae'n bosibl nad yw'r awdurdod lleol yn gwybod am bob plentyn sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Os na all yr awdurdod lleol farnu bod plentyn sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn cael addysg addas, neu os yw rhiant plentyn sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn methu â gwneud ei hun yn hysbys i'r awdurdodau lleol, gallai'r plentyn fod yn blentyn sy'n colli addysg. Yna, byddai'r plentyn yn cael ei gynnwys ar gronfa ddata plant sy'n colli addysg hyd nes bod yr awdurdod lleol wedi'i sicrhau bod yr addysg a ddarperir gan y rhiant yn addas ac yn effeithlon. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i fynd i'r afael â'r pryder hwn, galluogi awdurdodau lleol i nodi pob plentyn sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, a phenderfynu nad yw'n blentyn sy'n colli addysg.

50. Mae Comisiynydd Plant Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi argymell bod angen deddfwriaeth wedi'i chryfhau er mwyn mynd i'r afael â phryderon diogelu a lles am blant nad ydynt yn hysbys i awdurdodau lleol. Byddai deddfwriaeth sylfaenol a fyddai'n gosod dyletswydd ar rieni i gofrestru â'u hawdurdod lleol os ydynt yn addysgu yn y cartref yn sefydlu llinell glir rhwng plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref a phlant sy'n colli addysg, ac yn helpu awdurdodau lleol i nodi plant nad ydynt yn ymwybodol ohonynt. Mae'n bosibl y caiff hyn ei ystyried yn y dyfodol, yn ddibynnol ar ddatblygiadau ehangach.

## Asesu'r Gystadleuaeth

51. Ni ddisgwylir i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Peilota) (Cymru) effeithio ar allu busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol i gystadlu.

## Adolygu ar ôl gweithredu

52. Bydd y trefniadau yn cael eu profi'n llawn drwy'r cynllun peilot a bydd gwerthusiad annibynnol yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'i weithredu. Bydd y gwerthusiad yn asesu effaith y rheoliadau ar awdurdodau lleol, partneriaid byrddau iechyd lleol ac ysgolion annibynnol ac unrhyw ffactorau cysylltiedig o ran costau ac amser. Bydd yn asesu p'un a yw'r trefniadau cronfa ddata yn effeithiol ai peidio ar gyfer nodi plant a allai fod yn colli addysg ac a oes angen diwygio'r rheoliadau cyn rhoi trefniadau ar waith ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.